O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 162 (Cy. 22)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Rhyd-y-creuau, Betws-y-coed, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed *23 Ionawr 2012*

Yn dod i rym *1 Chwefror 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Maentwrog – Man i'r Dwyrain o Gonwy (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd gael ei gyfyngu neu'i wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Chwefror 2012 ac enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Rhyd-y-creuau, Betws-y-coed, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn—

"ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 08:00 o'r gloch ar 1 Chwefror 2012 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A470 yn Rhyd-y-creuau, Betws-y-coed ym Mwrdeistref Sirol Conwy, sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r Ffordd Capel Garmon Dosbarth 3 hyd at ei chyffordd â'r A5.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar gyflymder uwch na 40 milltir yr awr yn y darn o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar gyflymder uwch na 10 milltir yr awr yn y darn o'r gefnffordd.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd, na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio, ac eithrio cerbyd esempt, yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall yn y darn o'r gefnffordd yn ystod yr amseroedd pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 mewn grym.

6. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny mewn grym.

7. Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 6 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 23 Ionawr 2012

G R Morgan
GARETH MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy o ran Cymru gan Weinidogion Cymru